



Sgiliau Bwyd Cymru

Amodau a Thelerau'r Rhaglen ar gyfer Darparwyr Hyfforddiant

1. Lefel y Cymorth Sydd ar Gael

Mae faint o arian sydd ar gael ar gyfer pob busnes yn dibynnu ar nifer y gweithwyr

- Micro Fusnesau (1 – 10 o weithwyr) **hyd at 80%**
- Cyflogwyr bach a chanolig (11- 249 o weithwyr) **hyd at 70%**
- Sefydliadau mawr (> 250 o weithwyr) **hyd at 50%**

2. Caffael cyrsiau hyfforddiant

- Bydd ceisiadau am arian ar gyfer cyrsiau hyfforddiant a gymeradwywyd yn cael eu caffael trwy'r Fframwaith
- Dewisir darparwyr yn ôl categori'r cwrs a'r lleoliad ar gyfer ei ddarparu
- Bydd rhaid i ddarparwyr hyfforddiant gwblhau ymarferion tendro bach er mwyn cystadlu i gael darparu cwrs
- Caiff pob tendr eu sgorio'n fewnol gan y rhaglen
- Lantra ac nid y busnes fydd yn dewis y darparydd i gyflwyno cwrs
- Nid yw bod yn rhan o'r Fframwaith yn gwarantu y cewch unrhyw waith
- Bydd ceisiadau am hyfforddiant pwrpasol na all darparydd o'r Fframwaith eu darparu yn cael eu caffael trwy borth tendro Gwerthwchi Gymru er mwyn cael gafael ar ddarparydd addas
- Mae'n bosib cynnal contract penodol o'r Fframwaith ar gyfer cwrs hyfforddiant penodol, dros gyfnod penodol o amser ac am bris penodol

3. Darparwyr hyfforddiant

- Mae Gwasanaeth Cwsmer o Ansawdd yn bwysig i'r rhaglen
- Rhaid darparu hyfforddiant yn broffesiynol ac i safon uchel
- Bydd angen darparu hyfforddiant achrededig yn unol â rheolau a rheoliadau'r corff dyfarnu
- Rhaid cwblhau hyfforddiant a hawlio'r tâl amdano cyn diwedd cyfnod y prosiect.
- Bydd gan fusnesau hawl i wrthod gwasanaethau Darparwr Hyfforddiant cyn i'r cwrs gychwyn heb fod yn atebol am unrhyw gostau neu gyfrifoldebau.
- Os na all darparydd hyfforddiant ddarparu'r hyn a ddisgwyllir ganddynt o fewn cyfnod rhesymol o amser mae'n bosib i fusnes ofyn am newid y darparydd hyfforddiant, a bydd angen i'r busnes gael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan Lantra cyn newid darparwyr
- Ymchwilir unrhyw gwynion a dderbynnir gan fusnesau ynghylch ansawdd hyfforddiant a ddarparwyd neu wasanaethau a dderbyniwyd
- Gellir tynnu darparwyr anfodhaol oddi ar y Fframwaith
- Os nad yw buddiolwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddiant neu os yw busnes yn canslo o fewn cyfnod afresymol o amser cyfrifoldeb y busnes yw trafod a chytuno unrhyw gostau sydd heb eu talu gyda'r darparydd hyfforddiant

Confidential	Version 4	Date: 12/02/2021	Page 1 of 2	Author: S. Lewis
L:\DPT - Departments\WAL - Wales\Food Skills Cymru - Project Delivery Folder\Terms and Conditions\Training Providers – Terms and Conditions Version 4 Cymraeg				



4. Ceisiadau a Thaliadau

- Rhaid i'r busnes dalu'r cyfraniad ariannol a gytunwyd i'r darparwydd hyfforddiant cyn i'r cwrs gychwyn
- Unwaith y caiff cais am arian ei gymeradwyo ni all Lantra newid lefel y cyllid – mae'n bwysig cynnwys y costau cwrs cywir ar y ffurflen gais caffael
- Ni ellir hawlio mwy o arian na'r swm a nodir yn y llythyr cadarnhau cyllid
- Gellir hawlio llai o arian na'r swm a nodir yn y llythyr cadarnhau cyllid, gan ddibynnu ar nifer yr hyfforddeion sy'n cwblhau'r hyfforddiant a nifer y ffurflenni buddiolwyr a gyflwynir gyda'r cais
- Rhaid llenwi pob ffurflen yn gywir a rhaid eu darparu'n dystiolaeth gyda phob cais a gyflwynir i Lantra
- Os yw gwaith papur ar goll ni all Lantra brosesu'r cais
- Wedi cwblhau cwrs dylid danfon cais at Lantra gyda'r holl dystiolaeth ategol
- Bydd Lantra yn asesu'r holl dystiolaeth a gyflwynir gyda phob cais
- Os yw'r gwaith papur yn gywir dylid talu'r anfoneb ar o gwmpas y 10fed diwrnod gwaith yn y mis calendr canlynol
- Bydd gwaith papur anghywir neu ar goll yn arafu'r broses o dalu a gallai methu darparu'r gwaith papur cywir olygu na fydd cais yn cael ei dalu
- Os na fydd buddiolwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddi neu os yw busnes yn canslo o fewn amser afrealistig, mater i'r busnes yw datrys unrhyw gostau sy'n ddyledus gyda'r darparwr hyfforddiant.
- Pan mai dyma'r achos, bydd Sgiliau Bwyd Cymru yn pennu'r canlyniad fesul achos

5. Deddf Diogelu Data (2018) a GDPR y DU

- Rhaid i bob darparwydd ar y Fframwaith gydymffurfio â'r Deddf Diogelu Data (2018) a GDPR y DU newydd a gyflwynwyd ym mis Mai 2018
- Mae gan Lantra hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer y rhaglen ar yr holl ddogfennaeth berthnasol
- Bydd hysbysiad preifatrwydd llawn ar gael ar y wefan
- Ni fydd Lantra ond yn danfon manylion busnesau at ddarparwyr hyfforddiant sydd wedi ennill ymarferiad tendro
- Unwaith y cwblhawyd yr hyfforddiant, ni ddylai'r darparwydd hyfforddiant gysylltu â'r busnes eto ynghylch unrhyw gyrsiau hyfforddiant eraill oni bai fod y darparwydd hyfforddiant wedi cael caniatâd gan y busnes hwnnw

6. Gwerthusiad

- Bydd Lantra yn caffael contract ar wahân i benodi mudiad allanol i werthuso rhaglen Sgiliau Bwyd Cymru
- Bydd rhaid i fusnesau gydsynio i gymryd rhan yn y broses werthuso

Cofnodir pob fersiwn o'r ddogfen hon ac mae Lantra'n cadw'r hawl i ddiweddarau a diwygio'r ddogfen os a phan fydd angen.

Diweddarwyd y ddogfen hon ddiwethaf ar Ddydd Gwener 12fed o Chwefror 2021

Confidential	Version 4	Date: 12/02/2021	Page 2 of 2	Author: S. Lewis
L:\DPT - Departments\WAL - Wales\Food Skills Cymru - Project Delivery Folder\Terms and Conditions\Training Providers – Terms and Conditions Version 4 Cymraeg				